Enwi a Rhifo Strydoedd

Canllawiau Polisi a Nodiadau

Newport
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
Casnewydd

Rheoli'r Ddogfen

Lluniwyd gan	Uned Data Gofodol Corfforaethol
Dyddiad	15/11/2012
Adolygwyd gan	Sandra Newman – Uwch Swyddog Rhestr Enwau Lleoedd Corfforaethol
Dyddiad	01/04/2014

Hanes y Ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau/Newidiadau
V0.1	29/02/2008	Shaun Powell	Drafft Cychwynnol
V0.2	15/11/2012	Sandra Newman	Diwygiadau a diweddariadau cychwynnol
V0.3	24/06/2013	Shaun Powell	Diwygiadau a diweddariadau ychwanegol
V0.4	26/06/2013	Shaun Powell	Diwygiadau a diweddariadau drafft terfynol wedi ymgynghori â swyddogion
V0.5	19/08/2013	Shaun Powell	Diwygiadau wedi ymgynghoriad ffurfiol
V1.0	25/10/13	Shaun Powell	Terfynol
V1.1	01/04/2014	Sandra Newman	Diwygiadau i'r raddfa taliadau.
V2	01/08/2018	Sandra Newman	Cynnwys y Polisi Cadw, canllawiau Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru, gwybodaeth am Blatiau Enwau Strydoedd a diweddariadau cyffredinol
V2.1	31/01/2020	Sandra Newman	Diwygiadau i'r raddfa taliadau.

Hawlfraint

Cedwir yr holl Hawliau Eiddo Deallusol yn y ddogfen hon gan Gyngor Dinas Casnewydd. Mae'n ddogfen gyhoeddus a gellir ei chopïo, ei dyfynnu, ei chyhoeddi a'i dosbarthu yn rhydd ond ni ellir ei hailwerthu.

TABL CYNNWYS

1 Cyflwyniad 3

1.1 Datganiad Polisi 3
1.2 Ystyriaethau o ran y Gymraeg 3
1.3 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 4
1.4 Beth yw Enwi a Rhifo Strydoedd? 4
1.5 Pam fod Enwi a Rhifo Strydoedd yn bwysig? 4
1.6 Pwy sy'n gyfrifol am Enwi a Rhifo Strydoedd? 4
1.7 Pryd i Wneud Cais – Canllawiau i Ymgeiswyr 5
1.8 Sut i Wneud Cais – Canllawiau i Ymgeiswyr 5

2 Enwi a Rhifo Datblygiadau Newydd 6

2.1 Egwyddor Gyffredinol 6
2.2 Defnydd o Deitlau Marchnata Answyddogol 7
2.3 Themâu Arfaethedig 7

3 Cymeradwyo Cynlluniau Enwi a Rhifo 8

3.1 Enwau Strydoedd 8
3.2 Cyfres Rhifo Eiddo 10
3.3 Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol 11
3.4 Defnyddio Cyfeiriadau Newydd 12
3.5 Ychwanegu Enw i Eiddo â Rhif sy'n Bodoli'n Barod 12
3.6 Ailenwi Eiddo sy'n Bodoli'n Barod 12
3.7 Addasu Adeilad sy'n Bodoli'n Barod 13
3.8 Ailenwi Stryd 13
3.9 Ail-rifo eiddo/adeiladau sy'n bodoli'n barod neu ailenwi stryd 14

4 Hysbysu Partneriaid Mewnol ac Allanol am Wybodaeth Ynghylch Newid Cyfeiriad 14

5 Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd 15

6 Taliadau ar gyfer gwasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd 16

6.1 Graddfa'r Taliadau 16

7 Polisi Cadw 17

8 Cysylltiadau Defnyddiol 17

Atodiad A – Manyleb Platiau Enwau Stryd 19

Atodiad B - Ffurflen Gais Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Dinas Casnewydd: 19

1 Cyflwyniad

1.1 Datganiad Polisi

1.1.1. Nod y ddogfen hon yw cynnig cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr a'r rhai sydd eisoes yn berchnogion ar eiddo mewn perthynas â pholisi Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Dinas Casnewydd.

1.1.2. Rheolir y gwaith o Enwi a Rhifo strydoedd ac eiddo yng Nghasnewydd gan Gyngor Dinas Casnewydd dan ddarpariaethau Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 - Adrannau 17 i 19 (Enwi Strydoedd a Newid a Nodi Enwau Strydoedd).

1.1.3. Diben y rheoli hwn yw sicrhau bod dyraniad enwau a/neu rifau stryd ac eiddo newydd neu ddiwygiedig yn rhesymegol ac yn cael eu defnyddio mewn modd cyson. Bydd hyn yn helpu i ddarparu gwasanaethau effeithiol o bersbectif y sector cyhoeddus a phreifat ac yn enwedig, i sicrhau bod y gwasanaethau brys yn gallu dod o hyd i unrhyw gyfeiriad y cânt eu galw iddo.

1.2 Ystyriaethau o ran y Gymraeg

1.2.1. Fel Awdurdod Unedol Cymreig, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r safonau dilynol a roddir i'r awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg o fewn ei Hysbysiad Cydymffurfio. Mae'r gofynion statudol hyn, ynghyd â strategaeth 5 mlynedd yr awdurdod ar gyfer y Gymraeg yn pwysleisio na ddylai delwedd a wyneb cyhoeddus yr awdurdod lleol drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac er mwyn i'r egwyddor hon gael ei adlewyrchu yn y gwasanaethau y mae'r awdurdod yn eu darparu.

1.2.2. Mae Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygu pob agwedd ar y Gymraeg.

1.2.3. Gan fod gan y Cyngor yr hawl i benderfynu ar enwau strydoedd newydd, mae'n cydnabod pwysigrwydd rhoi ystyriaeth i farn leol. Felly, y polisi mewn perthynas ag enwau strydoedd newydd fydd mabwysiadu enw dwyieithog sy'n gyson â threftadaeth a hanes lleol yr ardal.

1.2.4. Yn dilyn cymeradwyo'r polisi bydd pob enw stryd newydd yn Gymraeg ac yn Saesneg gyda phob un â statws cyfartal a heb ffafrio'r naill na'r llall.

1.2.5. Ni fydd unrhyw newid i enwau strydoedd presennol a bydd y rhain yn aros yn yr iaith 'hysbys' er mwyn lleihau dryswch posibl.

1.2.6. Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau a phwerau statudol i gynnal rhestrau cywir a diweddar o enwau trefi, pentrefi, cymunedau a wardiau yn ogystal â datblygiadau newydd. Ym mhob achos, bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei restrau o safon uchel a bydd, mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg, yn cynnal archwiliad o'r rhestrau y mae'n eu cynnal i sicrhau safoni lle bo angen.

1.3 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

1.3.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n amlinellu saith nod lles cenedlaethol, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu'. Bydd sicrhau bod enwau strydoedd yng Nghasnewydd yn adlewyrchu treftadaeth leol, gan roi enwau i ddatblygiadau newydd sy'n berthnasol o ran hanes a diwylliant, a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn chwarae rhan bwysig wrth gyflawni'r nod lles hwn.

1.4 Beth yw Enwi a Rhifo Strydoedd?

1.4.1. Mae enwi a rhifo strydoedd yn golygu bod modd neilltuo hunaniaeth unigryw i stryd ac wedyn unrhyw eiddo cysylltiedig y gellir mynd iddo drwy'r stryd.

1.5 Pam fod Enwi a Rhifo Strydoedd yn bwysig?

1.5.1. Mae cofrestru eiddo yn dod yn fater sy'n gynyddol bwysig.

1.5.2. Mae cynnal safon gynhwysfawr, gyson ac uchel ar gyfer enwi strydoedd a rhifo neu enwi eiddo yn hanfodol gan ei fod yn galluogi:

- Gwasanaethau Brys i ddod o hyd i eiddo'n gyflym - gall oedi gostio bywydau ac arian
- Post i gael ei ddanfon yn effeithlon
- Ymwelwyr i ddod o hyd i'w cyrchfan
- Gwasanaethau a chynhyrchion i gael eu cyflenwi'n ddibynadwy
- Cadw cofnodion o ddarparwyr gwasanaeth mewn modd effeithiol
- Cwmnïau i dderbyn cyfeiriad at ddibenion swyddogol megis gwasanaethau telathrebu, yswiriant, bancio, statws credyd a phethau tebyg

1.6 Pwy sy'n gyfrifol am Enwi a Rhifo Strydoedd?

1.6.1. Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd gyfrifoldebau a phwerau statudol, yng nghyd-destun deddfwriaeth fabwysiadu, ar gyfer enwi strydoedd, newid enwau strydoedd a nodi enwau strydoedd. Mae gan y Cyngor bwerau dewisol ychwanegol hefyd i roi rhif neu enw i eiddo.

1.6.2. Dylid nodi nad oes gan y Post Brenhinol unrhyw gyfrifoldebau neu bwerau statudol i enwi stryd neu enwi, rhifo, ailenwi neu ailrifo eiddo.

1.6.3. Y Post Brenhinol yn unig sy'n gyfrifol am bennu cod post ar ôl cydgysylltu â Chyngor Dinas Casnewydd a chael gwybod ganddo am fanylion cyfeiriad newydd neu ddiwygiedig.

1.6.4. Mae'r Cyngor fel awdurdod enwi a rhifo statudol yn cynnal gwiriadau priodol o fewn y Rhestr o Gyfeiriadau Corfforaethol ac yn ymgynghori'n ehangach ac yn cydgysylltu â'r Post Brenhinol, sy'n gyfrifol am y Ffeil Cyfeiriadau Codau Post (PAF) mewn perthynas ag eiddo newydd a/neu enwau strydoedd. Mae hyn yn lleihau dyblygu a dryswch posibl ac yn sicrhau bod dull cyson a diamwys yn cael ei fabwysiadu ledled Casnewydd.

1.7 Pryd i Wneud Cais – Canllawiau i Ymgeiswyr

1.7.1. Dylai ceisiadau am wasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd gael eu gwneud gan:

- Unigolion neu sefydliadau sy'n dymuno ychwanegu enw at eiddo sydd wedi'i rifo'n unig
- Unigolion neu sefydliadau sy'n dymuno ailenwi eiddo sydd eisoes ag enw
- Unigolion neu ddatblygwyr sy'n adeiladu eiddo newydd sy'n cynnwys eiddo preswyl newydd, safleoedd masnachol, unedau diwydiannol a thebyg.
- Unigolion neu ddatblygwyr sy'n dymuno diwygio cynlluniau ar gyfer datblygiadau newydd sydd eisoes wedi mynd drwy'r broses enwi a rhifo ffurfiol
- Unigolion neu ddatblygwyr sy'n gwneud addasiadau i eiddo sy'n bodoli eisoes a fydd yn arwain at greu eiddo preswyl neu safleoedd busnes newydd. Bydd hyn yn cynnwys adeiladau presennol sydd wedi eu hisrannu'n fflatiau neu'n swyddfeydd, ysguboriau a addaswyd yn breswylfeydd a rhannu unedau masnachol
- Preswylwyr sy'n dymuno ailenwi stryd
- Unigolion a busnesau sy'n ceisio cadarnhad o gyfeiriad

1.7.2. Gall y broses o enwi a rhifo strydoedd fod yn un hir o dderbyn cais, drwy'r broses ymgynghori i baratoi a chwblhau amserlenni a chynlluniau lleoliad cymeradwy.

1.7.3. Dylai ymgeiswyr ymgynghori â Chyngor Dinas Casnewydd cyn gynted â phosibl i osgoi oedi posibl. Dylid cyflwyno ceisiadau cyn gynted â phosibl ar ôl i ganiatâd cynllunio ffurfiol a/neu gymeradwyaeth rheoli adeiladu ar gyfer y cynnig gael ei rhoi.

1.7.4. Dylid bod yn ofalus i osgoi rhoi cyfeiriadau post neu godau post tybiedig i ddarpar feddianwyr neu brynwyr cyn i'r Cyngor roi cymeradwyaeth ffurfiol. Mae'n debygol na fydd unrhyw gynllun rhifo unedau neu blotiau'n bodloni gofynion y Cyngor ac, felly, gall y cynllun rhifo swyddogol fod yn wahanol.

1.8 Sut i Wneud Cais – Canllawiau i Ymgeiswyr

1.8.1. Gellir gwneud cais i enwi a rhifo strydoedd ar-lein yn www.newport.gov.uk/ers.

1.8.2. Neu, gellir cael ffurflen gais drwy:

- Fynd i'n gwefan yn www.newport.gov.uk/ers
- E-bostio 6935snn@newport.gov.uk (Dyma gyfeiriad e-bost dynodedig Casnewydd at y diben hwn)
- Cysylltu â Chanolfan Gyswllt y Ddinas ar 01633 656656
- Argraffu copi sydd wedi'i gynnwys yng nghefn y ddogfen hon
- Mynd i'r Orsaf Gwybodaeth, Hen Adeilad yr Orsaf, Queensway, Casnewydd NP20 4AX. (Oriau'r swyddfa yw: dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am – 5.30pm)

1.8.3. Dylid dychwelyd ceisiadau argraffedig wedi'u cwblhau i:

Enwi a Rhifo Strydoedd
Blwch SP 885, Casnewydd, NP20 9LT

1.8.4. Bydd pob cais am wasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd yn cynnwys:

- Ffurflen gais Enwi a Rhifo Stryd wedi ei chwblhau – mae copi o'r ffurflen wedi ei gynnwys yn Atodiad B.
- Cynllun lleoliad i raddfa briodol. Yn achos datblygiad newydd – bydd angen cynllun gosodiad, yn dynodi safle'r eiddo yng nghyd-destun yr amgylchedd daearyddol. Cyfeirier at Adrannau 7.1.4 – Cysylltiadau Defnyddiol ar gyfer manylion lle mae modd prynu cynlluniau lleoliad priodol.
- Y taliad priodol ar gyfer y gwasanaeth Enwi a Rhifo Strydoedd penodol sydd ei angen. Cyfeirier at Adran 6 – Taliadau am wasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd.

2 Enwi a Rhifo Datblygiadau Newydd

2.1 Egwyddor Gyffredinol

2.1.1. Caiff y gwaith o enwi a rhifo strydoedd yng Nghasnewydd ei wneud o fewn darpariaethau Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925, Adran 17 – Hysbysiad i Awdurdod Lleol Trefol cyn enwi stryd.

2.1.2. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn annog themâu awgrymedig gan ddatblygwyr parthed enwi strydoedd ac adeiladau arfaethedig sy'n cyflwyno cais am wasanaethau Enwi a Rhifo Stryd. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal i sicrhau bod yr enwau a gaiff eu hawgrymu yn ateb y protocolau yn y ddogfen hon.

2.1.3. Mae i Gasnewydd gefndir hanesyddol arwyddocaol ac felly er mwyn sicrhau'r dreftadaeth hon, rhoddir ffafriaeth i gynlluniau enwi sydd â chyd-destun lleol neu hanesyddol.

2.1.4. Os na ellir sefydlu cysylltiad hanesyddol yn uniongyrchol â'r tir i'w ddatblygu yna gellir archwilio ardaloedd gerllaw am syniadau.

2.1.5. Os na ellir pennu unrhyw gyd-destun hanesyddol neu leol, a bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys rhwydwaith o strydoedd ac adeiladau, yna gellir

awgrymu thema. Unwaith eto, dylid cymryd gofal i sicrhau bod y themâu a gaiff eu hawgrymu yn ateb y protocolau yn y ddogfen hon.

2.1.6. Er bod rhwydd hynt i unigolion a busnesau awgrymu themâu enwi strydoedd ar ddatblygiadau newydd, gall y Cyngor gyflwyno hysbysiad o wrthwynebiad o dan Adran 17 y Ddeddf. Gall y person neu'r busnes sy'n cynnig yr enw stryd, o fewn un diwrnod ar hugain wedi cyflwyno'r hysbysiad, apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn unrhyw wrthwynebiad.

2.1.7. Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a fydd yn gyfrifol am bennu enwau lleoedd parthed cyfieithiadau Cymraeg.

2.1.8. Mae'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth enwi a rhifo strydoedd yn cael ei wneud o dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor, o fewn portffolio'r Pennaeth Gwasanaethau Pobl a Busnes.

2.2 Defnydd o Deitlau Marchnata Answyddogol

2.2.1. Ni fydd Cyngor Dinas Casnewydd yn mabwysiadu unrhyw deitlau neu themâu 'marchnata' answyddogol ar gyfer gwerthu eiddo newydd, oni bai fo cyd-destun hanesyddol neu leol wedi ei gytuno rhag blaen. Mewn achosion o'r fath caiff y thema a gytunwyd ei mabwysiadu fel sail i'r cynllun enwi stryd cymeradwy.

2.2.2. Ni chaniateir mabwysiadu teitlau 'marchnata' wrth greu lleoliadau neu enwau pentrefi deniadol 'answyddogol'.

2.2.3. Byddai'n ddoeth felly bod yn ofalus parthed enwau datblygiadau at ddibenion marchnata os nad yw'r enw wedi ei gytuno ymlaen llaw.

2.2.4. Dylid tynnu sylw fodd bynnag yn y lenyddiaeth a gaiff ei dosbarthu i ddarpar brynwyr fod enwau marchnata yn destun cymeradwyaeth ac felly o bosib yn gallu newid.

2.3 Themâu Arfaethedig

2.3.1. Dylai datblygwr sy'n cynnig thema ar gyfer datblygiad newydd ystyried y canlynol:

- Dylai fod i enw(au)'r stryd neu adeilad a gaiff ei awgrymu gyd-destun hanesyddol neu leol sydd wedi ei brofi a chysylltiad â safle'r datblygiad neu ardal gerllaw.

- Er mwyn cadw treftadaeth hanesyddol y ddinas a diogelu'r amgylchedd hanesyddol Cymreig, rhaid ystyried Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a'r rhestr o enwau lleoedd hanesyddol a geir yng nghofnodion yr amgylcheddau hanesyddol.

  https://historicplacenames.rcahmw.gov.uk/

- Gall enwi strydoedd neu adeiladau ar ôl unigolion penodol fod yn fater ychydig yn oddrychol. Y polisi felly fydd dim ond i gynnwys enw unigolyn neu berson, un

ai yn y gorffennol neu bresennol, mewn cynlluniau enwi cymeradwy os gellir sefydlu cyswllt hanesyddol neu waddol priodol

- Yr unig eithriad fydd yn yr achosion hynny lle cyfeirir at leoliadau daearyddol hanesyddol fel enwau priod e.e. 'Kimberley Park', 'John's Wood' ac ati.
- Ni fydd y cynllun enwi stryd neu eiddo a gaiff ei awgrymu yr un fath neu yn debyg i unrhyw enwau sydd yn bodoli eisoes yng Nghasnewydd er mwyn osgoi dryswch
- Lle na ellir sefydlu cyd-destun hanesyddol neu leol a bod rhwydwaith o strydoedd neu adeiladau i gael eu creu, gall y datblygwr gyflwyno awgrym o thema, ynghyd a rhesymau priodol, iddo gael ei ystyried.
- Dylid osgoi enwau strydoedd neu adeiladau a gaiff eu hawgrymu sydd yn anaddas am resymau esthetaidd. Er enghraifft Gaswork Road, Tip House ayb
- Dylid osgoi enwau stryd neu adeiladau a gaiff eu hawgrymu y gellir eu camddehongli'n fwriadol. Er enghraifft Hoare Road, Typple Avenue, Quare Street ayb
- Ni dderbynnir enwau stryd neu adeiladau a gaiff eu hawgrymu y gellid eu hystyried yn groes i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a Deddf Cydraddoldeb 2010 neu eu hystyried fel rhai tramgwyddus neu anweddus
- Dylid osgoi enwau strydoedd sy'n dechrau gydag 'Y/Yr'. Darganfuwyd bod y defnydd o 'Y/Yr' mewn enwau strydoedd yn gwastraffu eiliadau hanfodol i ganolfannau gorchymyn a rheoli wrth brosesu galwadau 999.
- Dylai enwau atodol, e.e. rhes o adeiladau ar ffordd sydd wedi ei enwi eisoes yn 'Teras ....', gael eu hosgoi os yn bosibl

2.3.2. Gellir cael gafael ar gyngor ac arweiniad parthed cyd-destun hanesyddol neu leol drwy:

- Fynd i'n gwefan yn www.newport.gov.uk/ers
- E-bostio central.library@newport.gov.uk
- E-bostio 6935snn@newport.gov.uk
- Ffonio'r tîm enwi a rhifo strydoedd ar 01633 656656

3 Cymeradwyo Cynlluniau Enwi a Rhifo

3.1 Enwau Strydoedd

3.1.1. Caiff y gwaith o enwi a rhifo strydoedd yng Nghasnewydd ei wneud dan Adran 17 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 – Hysbysiad i Awdurdod Lleol trefol cyn enwi stryd.

3.1.2. Bydd pob enw stryd newydd yn dechrau gydag un o'r rhagddodiaid canlynol (neu ôl-ddodiaid yn achos cyfieithiadau Saesneg) a'u harfer yn y modd canlynol:

‘Ffordd’	-	ar gyfer unrhyw brif ffordd neu ffyrdd trwodd
‘Heol’	-	ar gyfer unrhyw ffordd neu ffyrdd trwodd
‘Rhodfa’	-	ar gyfer unrhyw ffordd neu ffyrdd trwodd
‘Stryd’	-	ar gyfer unrhyw ffordd neu ffyrdd trwodd
‘Heol’	-	ar gyfer unrhyw ffordd neu ffyrdd trwodd
‘Llwyn’	-	ar gyfer strydoedd preswyl
‘Lôn’	-	ar gyfer strydoedd preswyl
‘Plas’	-	ar gyfer strydoedd preswyl
‘Filas’	-	ar gyfer strydoedd preswyl
‘Gerddi’	-	ar gyfer strydoedd preswyl (cyhyd nad oes dryswch gyda mannau agored lleol)
‘Clos’	-	ar gyfer ffyrdd pengaead yn unig
‘Cwrt’	-	ar gyfer ffyrdd pengaead a blociau preswyl yn unig
‘Pen’	-	ar gyfer ffyrdd pengaead yn unig
‘Cylch’	-	ar gyfer ffyrdd sy’n dechrau a gorffen yn yr un man
‘Cilgant’	-	ar gyfer ffyrdd â siâp cilgant
‘Sgwâr’	-	am sgwâr yn unig
‘Teras’	-	ar gyfer teras o dai
‘Bryn’	-	ar gyfer ffordd fryniog yn unig
‘Crib’	-	ar gyfer ffordd fryniog yn unig
‘Rhiw’	-	ar gyfer ffordd fryniog yn unig
‘Rhes’	-	ar gyfer ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol
‘Bro’	-	ar gyfer ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol
‘Trem’	-	ar gyfer ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol
‘Comin’	-	ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol
‘Parêd’	-	ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol
‘Parc’	-	ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol
‘Hyd’	-	ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol
‘Llwybr’	-	ar gyfer unrhyw ffordd neu ffordd drwodd mewn ardal wledig (neu mewn amgylchiadau priodol)
‘Dôl’	-	ar gyfer unrhyw ffordd neu ffordd drwodd mewn ardal wledig
‘Gwaun’	-	yn ddewis arall i’r uchod
‘Tywyn’	-	ar gyfer ffyrdd sydd â chysylltiad hanesyddol â dyffryn coediog
‘Glanfa’	-	ar gyfer ffyrdd sy’n gyfochrog neu gerllaw dyfrffyrdd y gellir eu mordwyo
‘Syrcas’	-	ar gyfer cylchfan fawr
‘Rhodfa’	-	ar gyfer ffyrdd i gerddwyr
‘Llwybr’	-	ar gyfer ffyrdd i gerddwyr
‘Llwybr cerdded’	-	ar gyfer ffyrdd i gerddwyr

3.1.3. Mae enwau unigol neu ddeuol heb ragddodiaid yn dderbyniol mewn amgylchiadau priodol. Er enghraifft prif ffyrdd fel Kingsway, Queensway, Broadway.

3.1.4. Yn gyffredinol, nid yw defnyddio 'Gogledd', 'De', 'Dwyrain' neu 'Gorllewin' fel ôl-ddodiad yn dderbyniol, ond cydnabyddir y gallai fod yn briodol gwneud hynny o dan amgylchiadau eithriadol er mwyn hwyluso'r broses adnabod.

3.1.5. Ar unrhyw brif ffordd neu ffordd drwodd, bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn ymdrechu i nodi cylchfannau amlwg gydag enw priodol. Er enghraifft Cylchfan yr Old Green, Cylchfan y Coldra, Cylchfan Pont Ebwy ayb.

3.1.6. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn annog awgrymiadau gan ddatblygwyr wrth gyflwyno cais am enwau strydoedd, fodd bynnag dylid arfer gofal er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r protocolau a nodwyd uchod yn benodol yr adran flaenorol sy'n sôn am Enwi a Rhifo Datblygiadau Newydd.

3.2 Cyfres Rhifo Eiddo

3.2.1. Gweithredir y protocolau canlynol ar unrhyw gynlluniau datblygiadau newydd a byddant yn cynnwys:

- Odrifau eiddo wedi eu dyrannu i ochr chwith y stryd newydd arfaethedig yn rhedeg o ddechrau i ddiwedd y stryd
- Eilrifau eiddo wedi eu dyrannu i ochr dde y stryd newydd arfaethedig yn rhedeg o ddechrau i ddiwedd y stryd
- Caiff ffyrdd pengaead a datblygiadau ar raddfa fechan eu rhifo'n olynol gan ddilyn cyfeiriad y cloc. Caiff datblygiadau pengaead hwy unwaith eto eu rhifo gydag odrifau eiddo ar y chwith ac eilrifau eiddo ar y dde
- Caiff y rhif eiddo 13 ei ddiddymu o'r cynllun rhifo eiddo, yn bennaf ar sail ceisiadau hanesyddol i'w newid
- Lle nad oes cyfres rhifo stryd yn bodoli, mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, bydd yn briodol dyrannu enwau eiddo y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, bydd pob enw eiddo cymeradwy wedi eu cyfeirio yn uniongyrchol at y stryd swyddogol ddynodedig agosaf er mwyn galluogi'r gwasanaethau brys i ddod o hyd i eiddo yn gyflym
- Bydd datblygiad mewnlenwad (eiddo newydd a gaiff ei adeiladu rhwng eiddo sy'n bodoli eisoes neu sydd ar dir eiddo sy'n bodoli eisoes) ar stryd sydd â rhifau yn derbyn yr un rhif ty â'r eiddo yn union cyn y mewnlenwad a'i ddilyn gan yr ôl-ragddodiad 'A' neu 'B'. Er enghraifft 24A, 24B ayb
- Caiff eiddo, yn benodol y rheiny sydd ar safle cornel, eu rhifo neu eu henwi yn unol â'r stryd lle lleolir ac y cyrchir y brif fynedfa. Ni chaniateir ystumio enwau neu rifau eiddo er mwyn sicrhau cyfeiriad mwy mawreddog neu er mwyn osgoi cyfeiriad, y tybir fod iddo gynodiadau annymunol.
- Gellir rhoi enw ar flociau o fflatiau ond bydd pob fflat unigol yn cael ei rifo'n olynnol

- Dylai pob enw bloc datblygiad ddechrau gydag un o'r rhagddodiaid canlynol (neu ôl-ddodiaid yn achos enwau Saesneg):

  - Llys
  - Tŷ
  - Pwynt
  - Twr
  - Porthdy
  - Fflatiau
  - Plasdai
  - Tyrau

- Dylai eiddo masnachol sy'n cynnwys nifer o swyddfeydd, ystafelloedd swyddfa neu unedau sicrhau fod pob un wedi ei rifo yn ddelfrydol â chynllun rhifo. Er enghraifft Ystafell 1, Ystafell 2 neu fel arall yn ôl ei leoliad o fewn yr adeilad – llawr gwaelod, llawr cyntaf ayb

- Dylai pob eiddo masnachol fod wedi ei rifo'n unigol neu ei enwi ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle mai enw'r busnes neu sefydliad yw'r unig fodd o adnabod yr eiddo

3.3 Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol

3.3.1. Er mwyn lleihau dryswch, bydd cyfeiriad pob eiddo masnachol yn gyfeiriad cynaliadwy y gellir ei ailddefnyddio waeth pa fusnes neu sefydliad sy'n meddiannu'r eiddo. Caiff rhifau uned priodol eu dyrannu a fydd yn aros yn gyson hyd yn oed os fydd y busnes sy'n meddiannu'r eiddo yn newid. Dylid arddangos rhif yr uned yn amlwg ar bob adeilad.

3.3.2. Canolfannau Siopa, Arcedau neu Rodfeydd Siopa:

Cytunir ar enw a bydd gofyn i bob siop neu uned o'u mewn i gael ei rif unigol ei hun. Y stryd lle ystyrir bod prif neu fynediad pennaf yr adeilad fydd y stryd a gaiff ei defnyddio yn y cyfeiriad swyddogol. Caiff pwyntiau mynediad amgen eu cofnodi yn Rhestr Gyfeiriadau Corfforaethol y Cyngor a'u cyflenwi yn unol â hynny i bartneriaid rhanddeiliadol mewnol ac allanol. Er enghraifft:

- Uned 1, Arcêd Siopa Casnewydd, High Street, Casnewydd
- Uned 2, Arcêd Siopa Casnewydd, High Street, Casnewydd
- Uned 1, Arcêd Siopa Casnewydd, Commercial Street, Casnewydd
- Uned 2, Arcêd Siopa Casnewydd, Commercial Street, Casnewydd

3.3.3. Parciau Manwerthu a Rhodfeydd Siopa Awyr Agored:

Cytunir ar enw ar gyfer y parc neu rodfa. Bydd y protocolau fel a ddiffinnir uchod.

3.3.4. Ystadau Diwydiannol:

Lle bo'n briodol rhoddir enw ar ystâd diwydiannol. Bydd gofyn i bob uned neu iard gael rhif unigryw. Bydd y protocolau a amlinellir uchod yn berthnasol.

3.3.5. Os yw'r ganolfan siopa, arcêd, rhodfa siopa, parc manwerthu, neu ganolfan siopa i gerddwyr yn cynnwys mwy nag un stryd ag enw swyddogol, a chredir fod angen enwau priodol ar y strydoedd hyn, caiff yr eiddo eu rhifo i'r stryd o le y ceir mynediad iddynt. Felly caiff ardal gymeradwy ei neilltuo er mwyn helpu gydag adnabod. Er enghraifft:

- Uned 1, Central Avenue, Parc Manwerthu Casnewydd, Casnewydd
- Uned 2, Central Avenue, Parc Manwerthu Casnewydd, Casnewydd
- Uned 1, Severn Stiles Avenue, Parc Manwerthu Casnewydd, Casnewydd
- Uned 2, Severn Stiles Avenue, Parc Manwerthu Casnewydd, Casnewydd

3.3.6. Dylid nodi bod enwau Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol ac ati yn amodol ar yr un egwyddorion â'r rhai a amlinellwyd ar gyfer enwau strydoedd neu adeiladau a nodir yn Adrannau 2 a 3. Argymhellir bod cyswllt yn cael ei wneud â'r tîm Enwi a Rhifo Strydoedd yn ystod y cam datblygu cynharaf felly gellir cytuno ar gynlluniau enwi a rhifo arfaethedig o'r cychwyn cyntaf.

3.4 Defnyddio Cyfeiriadau Newydd

3.4.1. Pan fo datblygiad newydd wedi ei gymeradwyo, caiff cyfeiriadau eu creu gan y Cyngor fel endidau 'dros dro'. Caiff manylion y datblygiad arfaethedig eu rhannu gyda'r Post Brenhinol a fydd wedyn yn 'dal a chofnodi' y cyfeiriadau ar eu cronfa ddata 'Heb Eu Codi Eto'. I osgoi unrhyw broblemau gyda phost yn cael ei yrru at gyfeiriadau nad sy'n bodoli nid yw'r cyfeiriadau yn fyw nes meddiennir yr eiddo neu nes bod yr eiddo bron â chael ei gwblhau ac felly'n gallu derbyn gwasanaethau post.

3.4.2. Wrth i bob eiddo agosáu at gael ei gwblhau bydd gofyn i'r datblygwr hysbysu'r Tîm Enwi a Rhifo Strydoedd a gofyn i'r cyfeiriad ddechrau cael ei ddefnyddio. Ar dderbyn hysbysiad bydd cadarnhad yn cael ei roi i bob gwasanaeth mewnol a phartneriaid allanol, gan gynnwys y gwasanaethau brys. Hysbysir y Post Brenhinol er mwyn sicrhau bod y cofnodion cywir yn cael eu symud o'u cronfa ddata 'Heb Eu Codi Eto' i'r Ffeil Cyfeiriad Cod Post (PAF) fel y bydd ar gael i'w ddefnyddio'n gyffredinol a bydd modd cyfeirio iddo ledled y Deyrnas Gyfunol.

3.5 Ychwanegu Enw i Eiddo â Rhif sy'n Bodoli'n Barod

3.5.1. Caniateir rhoi enw ar eiddo pan fo cynllun rhifo eisoes ar waith. Bydd yr enw yn ychwanegiad i'r rhif ac nid yn ei ddisodli. Ni ddylai'r enw fod yn cael ei ddefnyddio eisoes gan unrhyw eiddo arall, na swnio'n rhy debyg i enw eiddo arall, yn yr ardal. Caiff gwiriad manwl ei wneud ar dderbyn cais er mwyn osgoi dyblygu ac ni chaiff enwau sy'n groes i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor na Deddf Cydraddoldeb 2010 neu a gaiff eu hystyried yn dramgwyddus neu anweddus eu derbyn.

3.6 Ailenwi Eiddo sy'n Bodoli'n Barod

3.6.1. Mae'n bosib y caiff enw eiddo sy'n bodoli yn barod ei newid. Ni ddylai'r enw arfaethedig fod yn cael ei ddefnyddio gan eiddo arall, na swnio'n rhy debyg i enw eiddo arall, yn yr ardal. Caiff gwiriad manwl ei wneud ar dderbyn cais er mwyn osgoi dyblygu ac ni chaiff enwau sy'n groes i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor na Deddf Cydraddoldeb 2010 neu a gaiff eu hystyried yn dramgwyddus neu anweddus neu yn agored i gael eu camddehongli eu derbyn.

3.6.2. Wrth ystyried ceisiadau am newid i enw eiddo sy'n ymddangos mewn cyfeiriad swyddogol, bydd yn ofynnol i'r Cyngor wirio'r cynnig yn erbyn y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol. Os oes tystiolaeth dda bod gan yr eiddo enw hanesyddol sydd wedi ymddangos ar fapiau hanesyddol, bydd y Cyngor yn gofyn i'r ymgeisydd ailystyried yr enw arfaethedig a chadw'r enw neu, o bosib, fabwysiadu'r enw hanesyddol.

https://historicplacenames.rcahmw.gov.uk/

3.7 Addasu Adeilad sy'n Bodoli'n Barod

3.7.1. Bydd addasu neu rannu eiddo preswyl sy'n arwain at un pwynt mynediad lle cyrchir yr holl fflatiau ohono yn golygu rhifo yn hytrach na disgrifiad neu lythrennau. Er enghraifft, Fflat 1 yn hytrach na fflat Llawr Cyntaf neu Fflat A

3.7.2. Bydd addasu neu rannu eiddo preswyl sy'n arwain at bwyntiau mynediad lluosog gyda phob fflat â'i ddrws blaen ei hun ar wahân o'r stryd ddynodedig, yn cynnwys ôl-ddodiad i'r cyfeiriad cyffredinol. Er enghraifft bydd 'A', 'B', 'C' yn dod yn 24A, 24B, 24C

3.7.3. Bydd eiddo a gyfunwyd yn defnyddio rhifau'r eiddo gwreiddiol pan ddefnyddir rhifau eiddo. Er enghraifft, bydd cyfuno dau eiddo yn rhif 4 High Street a 6 High Street neu Uned 1 Ystâd Fasnach ac Uned 2 Ystâd Fasnach yn arwain at gyfeiriadau newydd sef 4-6 High Street ac Uned 1-2 Ystâd Fasnach yn y drefn honno.

3.8 Ailenwi Stryd

3.8.1. Caiff newid enw stryd yng Nghasnewydd ei wneud o fewn darpariaethau Adran 18 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 ~ Newid enw stryd.

3.8.2. Trwy orchymyn gall y Cyngor newid enw unrhyw stryd, neu ran o stryd, neu gall ddynodi enw ar unrhyw stryd, neu ran o stryd, lle nad oes enw wedi ei roi.

3.8.3. Heb fod yn llai na mis cyn gwneud y gorchymyn o dan yr adran hon, bydd y Cyngor yn hysbysu'r gorchymyn arfaethedig ar ddiwedd bob pen i'r stryd, neu ran o'r stryd, neu mewn rhyw fan amlwg yn y stryd neu'r rhan a effeithir.

3.8.4. Bydd pob hysbysiad o'r fath yn cynnwys datganiad i'r perwyl y gall y Cyngor wneud y gorchymyn arfaethedig ar unrhyw adeg wedi'r dyddiad a enwir yn yr hysbysiad, a bydd modd i unrhyw berson a dramgwyddir yn ei erbyn apelio o dan y ddeddf hon i lys ynadon yn erbyn y gorchymyn arfaethedig.

3.8.5. Gall unrhyw berson a gaiff ei dramgwyddo gan orchymyn arfaethedig y Cyngor, o fewn un diwrnod ar hugain wedi codi'r hysbysiad, apelio i'r Llys Ynadon.

3.8.6. Mewn achos pan fo gofyn am newid enw stryd sy'n bodoli'n barod neu bod enw stryd yn cael ei neilltuo i stryd nad oedd ag enw o'r blaen, yna ymgynghorir yn llawn â'r preswylwyr presennol.

3.8.7. Pan fo preswylwyr yn gofyn i gael enwi neu ailenwi stryd sy'n bodoli eisoes a phan fo dau draean o'r preswylwyr yn cytuno, gellir gwneud cais i newid enw stryd. Bydd gofyn i'r cais fod a rhesymau penodol a rhaid cynnwys y dewis enw. Rhaid i'r enw newydd lynu wrth yr egwyddorion a nodwyd yn y polisi.

3.9 Ail-rifo eiddo/adeiladau sy'n bodoli'n barod neu ailenwi stryd

3.9.1. Bydd ail-rifo eiddo sy'n bodoli'n barod yn cael ei ystyried pan geir newidiadau sy'n peri (neu sy'n debygol o beri) problemau ar gyfer darparu gwasanaethau neu broblemau a gaiff eu codi gan y gwasanaethau brys. Gallai hyn fod yn berthnasol lle na ellir cwmpasu datblygiad newydd o fewn y gyfres rifo sy'n bodoli'n barod. Gan y gall y broses gymryd amser ac arwain at gostau ychwanegol, tarfu neu anghyfleustra i feddianwyr unigol, dylid ei osgoi lle bynnag y bo modd.

3.9.2. Ar gyfer datblygiadau newydd ar stryd sy'n bodoli'n barod, ffefrir defnyddio ôl-ddodiaid, neu ail-rifo os mai ond ychydig o eiddo a effeithir, yn hytrach nag ail-rifo stryd cyfan. Fodd bynnag nid yw hyn o hyd yn bosib a bydd ailenwi strydoedd ac ail-rifo eiddo yn ôl disgresiwn Cyngor Dinas Casnewydd.

4 Hysbysu Partneriaid Mewnol ac Allanol am Wybodaeth Ynghylch Newid Cyfeiriad

4.1.1. Yn dilyn cwblhau cais Enwi a Rhifo Strydoedd, bydd y Cyngor yn cynnwys y partneriaid canlynol fel rhan o'r broses hysbysu ffurfiol:

- Pob un o Wasanaethau Mewnol y Cyngor
- Heddlu Gwent
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Tân ac Achub De Cymru
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Arolwg Ordnans
- Post Brenhinol
- Asiantaeth y Swyddfa Brisio
- Cofrestrfa Tir
- Wastesavers Casnewydd

- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lle bo'n briodol

4.1.2. Bydd y Cyngor, dan ei awdurdod dirprwyedig, yn hysbysu'r Gofrestrfa Tir o gyfeiriadau newydd a'r rhai wedi'u newid; fodd bynnag, perchennog yr eiddo fydd yn gyfrifol am gysylltu â'r Gofrestrfa Tir os yw'n dymuno diweddaru 'teitl cofrestredig'. Gweler 8.1.4. am fanylion cyswllt.

5 Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd

5.1.1. Defnyddir dwy brif ffynhonnell ar gyfer gwybodaeth ynghylch cyfeiriadau ar draws y DG.

5.1.2. Fel awdurdod lleol, mae gofyn i'r Cyngor reoli a chynnal Rhestr Cyfeiriadau a Strydoedd Corfforaethol gyda diweddariadau rheolaidd yn cael eu bwydo i hyb canolog y Rhestr Cyfeiriadau a Strydoedd Cenedlaethol.

5.1.3. Y Rhestrau Cyfeiriadau a Strydoedd Corfforaethol, a gaiff eu rheoli a'u cynnal gan bob awdurdod lleol ac unedig ar draws Cymru, yr Alban a Lloegr, yw carreg sylfaen datblygiad a chyflawniad rhaglen seilwaith cyfeiriadau cenedlaethol Gwledydd Prydain.

5.1.4. Rheolir y Rhestrau Cyfeiriadau a Strydoedd Cenedlaethol gan GeoPlace (partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sector cyhoeddus rhwng y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Arolwg Ordnans) gan ddarparu ffynonellau dibynadwy, cadarn a diweddar o ddata cyfeiriadau gofodol a strydoedd sy'n eiddo i'r cyhoedd.

5.1.5. Caiff y Rhestrau Cenedlaethol eu cydnabod fel cydrannau allweddol ar gyfer datblygu cofrestr gynhwysfawr o wybodaeth cyfeiriadau a strydoedd cywir ar gyfer y sector cyhoeddus a phreifat.

5.1.6. Mae'r Rhestrau Corfforaethol yn cydymffurfio â Safon Prydeinig BS7666 – Setiau Data Gofodol ar gyfer Cyfeirio Daearyddol Rhan 1 a 2 a Chanllawiau'r Confensiwn Cofnodi Data Cenedlaethol fel y cytunir gan yr awdurdodau cynnal dynodedig.

5.1.7. Gall y cyfeiriadau sydd yn y Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol fod yn wahanol i rai y Swyddfa Bost gan fod angen iddynt fod yn sail i ofynion ac anghenion busnes gwahanol.

5.1.8. Mae ffeil cyfeiriad cod post y Post Brenhinol (PAF) wedi ei chreu yn benodol i gefnogi gwasanaethau dosbarthu post ac nid yw'r Post brenhinol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd ar gyfer defnyddio'r PAF ar gyfer unrhyw ddiben neu ddefnydd arall y tu hwnt i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

5.1.9. Bwriad y rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol yw hwyluso dosbarthiad cywir yr holl wasanaethau ac mae wedi ei seilio ar leoliad daearyddol gwirioneddol yr eiddo ond hefyd gan gynnwys tref bostio fel ag a ddefnyddir gan y Post Brenhinol.

5.1.10. Ar ben hynny, mae'r Rhestr Cyfeiriadau corfforaethol yn cynnwys gwrthrychau nad sy'n ymwneud a'r post megis tir datblygu a thir amaeth, coetiroedd,

parciau, eglwysi, toiledau cyhoeddus i enwi ond ychydig nad sydd wedi eu cwmpasu o fewn y PAF.

5.1.11. Mae'r gwahaniaethau wedi eu crynhoi isod:

Elfen Cyfeiriad	Cyfeiriad Post	Cyfeiriad BS7666
Rhif/enw fflat	Heb ei gynnwys bob tro	Wedi ei gynnwys bob tro
Rhif eiddo	Wedi ei gynnwys bob tro	Wedi ei gynnwys bob tro
Enw eiddo	Ei gynnwys os nad oes rhif	Wedi ei gynnwys bob tro
Enw'r Stryd	Heb ei gynnwys bob tro mewn ardaloedd gwledig	Wedi ei gynnwys bob tro
Ardal leol	Wedi ei gynnwys pan fo angen gweithredol ar y Post Brenhinol	Wedi ei gynnwys pan fo enw o'r fath yn bodoli
Tref	Wedi ei gynnwys pan fo angen gweithredol ar y Post Brenhinol	Wedi ei gynnwys bob tro
Tref bostio	Wedi ei gynnwys bob tro	Wedi ei gynnwys bob tro ond ar wahân i'r dref ddaearyddol
Cod post	Wedi ei gynnwys bob tro lle y'i dyrannwyd	Wedi ei gynnwys bob tro lle y'i dyrannwyd
ON: lle bo ardal wedi ei gofnodi efallai na fydd o hyd yr un peth yn y ddau fath o gyfeiriadau.		

5.1.12. Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol y Cyngor yw'r prif restr cyfeiriadau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.

6 Taliadau ar gyfer gwasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd

6.1 Graddfa'r Taliadau

Categori	Tâl (yn cynwys TAW)
Enwi/Ailenwi Eiddo	£43.50
Datblygiad Plot Sengl	£119.00
Datblygiad 2+ Plot	£119.00 + £43.50 am bob plot ychwanegol
Newidiadau i Gynllun Datblygiad yn dilyn Hysbysiad	£43.50 fesul Plot a Effeithiwyd

Ailenwi Stryd ar Gais Preswylwyr	£119.00 + £43.50 am bob eiddo
Cadarnhau Cyfeiriad	£43.50

Mae graddfa wahaniaethol y taliadau a nodir uchod yn gyfredol ar 14 Chwefror 2020. Adolygir y taliadau bob blwyddyn.

7 Polisi Cadw

Mae'r polisi cadw hwn yn ymwneud â dogfennau a luniwyd ac a dderbyniwyd at ddibenion enwi a rhifo strydoedd.

Swyddogaeth	**Cam Cadw**
Cais am enw stryd newydd ac i ailenwi enw stryd presennol	Dileu ar ôl 7 mlynedd
Cais am rhif neu enw eiddo newydd ac i ailrifo neu ailenwi eiddo presennol	Dileu ar ôl 7 mlynedd
Dogfen benderfyniad swyddogol sy'n cymeradwyo enw stryd newydd neu ailenwi stryd bresennol	Parhaol
Dogfen benderfyniad swyddogol sy'n cymeradwyo rhif neu enw eiddo newydd ac ailrifo neu ailenwi eiddo presennol	Parhaol
Cais i'r Post Brenhinol am ddyraniad cod post	Dileu 7 mlynedd ar ôl y cam diwethaf
Cadarnhad gan y Post Brenhinol o ddyraniad cod post	Dileu 7 mlynedd ar ôl y cam diwethaf
Dogfen dyrannu neu ddosbarthu enwau stryd newydd ac ailenwi stryd	Dileu 7 mlynedd ar ôl y cam diwethaf
Dogfen dyrannu neu ddosbarthu rhif neu enw eiddo newydd ac ailrifo neu ailenwi eiddo presennol	Dileu 7 mlynedd ar ôl y cam diwethaf

8 Cysylltiadau Defnyddiol

8.1.1. Tîm Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Dinas Casnewydd

- Gwefan: www.newport.gov.uk/ers
- E-bost: 6935snn@newport.gov.uk
- Ffôn: 01633 656656
- Swydd: **Enwi a Rhifo Strydoedd, Blwch Post 885, Casnewydd, NP20 9LT**

8.1.2. Gwasanaethau'r Ddinas – ar gyfer manylion am Blatiau Enwau Strydoedd (gweler Atodiad A)

- Gwefan: www.newport.gov.uk/streetscene
- E-bost: business.services@newport.gov.uk
- Ffôn: 01633 656656

8.1.3. Y Post Brenhinol

- Gwefan: www.royalmail.com
- Ffôn: 08456 011110 (llinell ymholiadau rheoli cyfeiriadau)

8.1.4. Cofrestrfa Tir

- Citizen Centre, PO Box 74, Caerloyw GL14 9BB
- E-bost: customersupport@landregistry.gov.uk
- Llinell gymorth i gwsmeriaid: 0300 006 0411 (8am – 6pm dydd Llun i ddydd Gwener)
- Ffurflen Cysylltu â Ni yn: http://site.landregistry.gov.uk/contact-us/form

8.1.5. Mae Cynlluniau Lleoliad ar gael i'w prynu gan

- https://www.buyaplan.co.uk
- Azimuth Land Surveys Ltd, 28 Cardiff Road, Casnewydd, NP20 2ED. Ffôn: 01633 263575. E-bost: info@azimuthgroup.co.uk
- https://www.ordnancesurvey.co.uk/shop

Atodiad A – Manyleb Platiau Enwau Stryd

1. Dylai Platiau Enwau Stryd fod ar ffurf Plât Arwydd sydd wedi'i rybedu i Ffrâm Ddur. Bydd y ffrâm ddur hon yn cynnwys darn atgyfnerthu ar draws ac ynghlwm wrth waelod y plât arwydd.

2. Caiff y plât ôl-adlewyrchol parhaol ei greu o alwminiwm 3mm a chaiff ei sgrinbrintio gan gynnwys y testun du (arddull destun Kindersley ag uchder o 89mm) ar Gednfir Gwyn gydag Ymyl Ddu i Class Ref 1, ac atodir Troshaen Amddiffynnol wrtho. Bydd y platiau arwydd yn 150mm neu'n 300mm o ran dyfnder. Lle gofynnir am arwydd "Dim Ffordd Drwodd" priodol, i Ddiagram Rhif 816, bydd ar gyfer dyfnder plât arwydd 300mm.

3. Bydd pob arwydd yn ddwyieithog, gyda'r cyfieithiad Cymraeg uwchben y testun Saesneg. Yr eithriad yw lle caiff stryd ei henwi ar ôl enw/lle Cymraeg heb unrhyw gyfieithiad. Bydd y platiau arwydd yn 150mm o ran dyfnder os ydynt yn cynnwys un llinell o destun neu'n 300mm o ran dyfnder os oes sawl llinell o destun a/neu arwydd Dim Ffordd Drwodd.

4. Caiff y Ffrâm ei chreu o ddur ag onglau cyfartal 38mm, gyda hyd coes 900mm o waelod y plât arwydd. Caiff trefniant plât gwaelod ei weldio i ben y coesau er mwyn atal y ffrâm rhag cael ei thynnu o'i sylfaen. Caiff y fframiau eu chwistrellu â Sinc a byddant yn Ddu o ran lliw.

5. Caiff pob plât enw stryd ei osod yng nghefn y droedffordd, neu yn y llain laswellt fabwysadwy.

Atodiad B - Ffurflen Gais Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Dinas Casnewydd:

UPRN:

SNN:

Cais Enwi a Rhifo Strydoedd

Gwnewch gais ar-lein: www.newport.gov.uk/ers
Gellir anfon ceisiadau at: Enwi a Rhifo Strydoedd, Blwch Post 885, Casnewydd, NP20 9LT.

Mae'n rhaid i bob cais am wasanaethau Enwi a Rhifo Stryd gynnwys, yn ogystal â'r ffurflen hon, y ffi berthnasol a chynllun lleoliad ar y raddfa briodol (i raddfa nid yn llai na 1:1250) ac mewn achos datblygiad newydd - cynllun gosodiad, gan nodi safle'r eiddo mewn perthynas â'r amgylchedd daearyddol.

1 Manylion yr Ymgeisydd

Enw Cyswllt ……

Enw'r Cwmni (os yn berthnasol) ……

Cyfeiriad ……

…… Cod Post ……

Rhif Ffôn yn ystod y dydd …… Ffôn symudol ……

E-bost ……

Hoffwn ohebu yn ☐ Gymraeg ☐ Saesneg

2 Cyfeiriad neu Leoliad Safle *y mae'r cais yn cyfeirio ato*

Cyfeiriad / Lleoliad / Enw'r Datblygiad ……

……

……

3 Perchnogaeth

☐ Rhydd-ddeiliad ☐ Y Safle Gyfan ☐ Rhan o'r Safle

☐ Lesddeiliad ☐ Y Safle Gyfan ☐ Rhan o'r Safle

Os nad chi yw'r Rhydd-ddeiliad yr eiddo, rhaid i chi atodi caniatâd ysgrifenedig gan y Rhydd-ddeiliad, gan gynnwys manylion cyswllt, er mwyn i chi wneud cais am y newid arfaethedig.

4 Math o Eiddo a Defnydd

☐ **Preswyl** Nodwch os yw'n Dŷ ar Wahân / Dŷ Pâr / Dŷ Teras / Fflat ayb

……

☐ **Busnes** Nodwch natur y busnes

……

☐ **Arall** Nodwch defnydd yn fanwl

……

5 Manylion y Cais *Cwblhewch 1 opsiwn yn unig o'r adran hon*

☐ **Enwi Eiddo** - *Ychwanegu neu newid enw eiddo a enwyd/ rhifwyd eisoes (nid yw'n berthnasol i eiddo sydd newydd ei adeiladu/ addasu).*

Enw Presennol *(os yn berthnasol)* ……

Enw Arfaethedig ……..……..

☐ **Datblygiad** - *Gan gynnwys adeiladu o'r newydd neu rannu eiddo sy'n bodoli eisoes i fflatiau, unedau ayb.*

Nifer o Leiniau…….....…… Darparwch gynlluniau.

Rhif Cais Cynllunio …….....……...…… Rhif Rheoliadau Adeiladu …….....……

Rhowch fanylion o enwau adeiladau a / neu enwau strydoedd ynghyd â'r rhesymau dros eich dewisiadau. Rhoddir blaenoriaeth i enwau gyda chyd-destun hanesyddol neu leol. Fel arall, bydd y Tîm Enwi a Rhifo strydoedd yn hapus i awgrymu enwau ar eich cyfer.

……

……

……

……

……

Ar gyfer datblygiadau o fflatiau neu randai nodwch safle'r blychau post.

☐ Blychau post yn nrws ffrynt pob fflat neu randy.

☐ Banc o flychau post ger y prif fynedfa.

☐ Arall *(nodwch)* …….....……..

Ydy'r eiddo yn gyfan ac yn barod i'w ddefnyddio?

☐ Ydy ☐ Nac Ydy Dyddiad amcangyfrifedig cwblhau ……..……

☐ **Newid i'r Cynllun Datblygu -** *Newidiadau i safleoedd a enwyd/rhifwyd eisoes*

Rhif Cais Enwi a Rhifo Stryd *(cyfeiriwch at lythyr cydnabod y cais gwreiddiol)* ……...…..…

Manylion Newidiadau ……...…

……

Nifer o Leiniau …… Darparwch gynlluniau diwygiedig

☐ **Ailenwi Strydoedd ar Gais Preswylwyr**

Enw Stryd Presennol ……..……

Enw Stryd Arfaethedig ……..……

Rheswm am y Newid ……..……

☐ **Cadarnhau Cyfeiriad** – *i drawsgludwyr ayb*

6 Datganiad

Rwyf i / Rydym ni drwy hyn yn gwneud cais am wasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd fel a fanylir yn y cais hwn ac yn datgan fod y wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn gywir ac yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth / ein gwybodaeth ni. Rwyf hefyd yn cadarnhau mai fi/ ni yw perchennog / perchnogion cyfreithiol yr eiddo.

Llofnod(ion) …….…… Dyddiad …….....

7 Rhestr wirio - Cyn dychwelyd y ffurflen wedi'i llenwi gwiriwch eich bod wedi cynnwys yr eitemau canlynol. ***Sylwer: mae angen y 3 eitem ar gyfer pob cais.***

☐ **Ffurflen gais wedi'i chwblhau**, llofnodi a'i dyddio

☐ **Cynllun lleoliad i raddfa briodol** (i raddfa nid yn llai na 1:1250) ac yn achos datblygiad newydd - cynllun gosodiad, gan nodi safle'r eiddo mewn perthynas â'r amgylchedd daearyddol

☐ **Y ffi briodol** (gweler adran 8 Graddfa Tâl) - Sieciau'n daladwy i 'Cyngor Dinas Casnewydd'

GWNEUD CAIS ARLEIN: www.newport.gov.uk/ers

Neu ddychwelyd cais llawn i: **Enwi a Rhifo Strydoedd, Blwch Post 885, NP20 9LT**

8 Graddfa Daliadau

Categori	Ffioedd Presennol
Enwi/Ail-enwi Eiddo (nid yw'n cynnwys eiddo sydd newydd eu hadeiladu/ addasu)	£43.50
Datblygiad Llain Sengl	£119.00
Datblygiad 2+ Llain	£119.00 + £43.50 ar gyfer pob llain ychwanegol *(ee: Datblygiad o 2 lain = £162.50)*
Newidiadau i Gynllun Datblygu ar ôl Hysbysu	£43.50 ar gyfer pob llain a effeithir
Ail-enwi strydoedd ar Gais Preswylwyr	£119.00 + £43.50 ar gyfer pob llain ychwanegol
Cadarnhau'r Cyfeiriad i'r Trawsgludwr ayb	£43.50

Mae graddfa wahaniaethol y taliadau a nodir uchod yn gyfredol ar 14 Chwefror 2020. Adolygir y taliadau bob blwyddyn.

9 Cymorth Os oes angen cymorth neu arweiniad arnoch wrth wneud cais cysylltwch â neu ewch i

- ✓ Ein gwefan www.newport.gov.uk/ers
- ✓ E-bost 6935snn@newport.gov.uk
- ✓ Rhif ffôn - 01633 656656